CYHOEDDI HYSBYSIAD O AMRYWIAD I BENDERFYNIAD I GYFYNGU AR GYMWYSTERAU BLAENORIAETHOL A WNAED O DAN ADRAN 14 DEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015 ("Y Ddeddf")

Mae'r hysbysiad hwn yn amrywio penderfyniad i gyfyngu a wnaed o dan Adran 14(1) y Ddeddf mewn perthynas â'r cymwysterau blaenoriaeth a nodir isod. Cyhoeddwyd yr amrywiad hwn i amlinellu newidiadau i deitlau cymwysterau a dyddiadau cychwyn cyfyngu rhai o'r cymwysterau.

Amrywiad i Benderfyniad

Mewn perthynas â phob cymhwyster cyfyngedig newydd a nodir isod, mae Cymwysterau Cymru yn fodlon, gan ystyried prif nodau Cymwysterau Cymru a'r amcanion yn is-adran 14(4) o'r Ddeddf, ei bod yn ddymunol i gyfyngu ar nifer y ffurfiau ar y cymhwyster a gymeradwyir gan Gymwysterau Cymru i'r uchafswm a nodir yn y penderfyniad hwn.

Mae Cymwysterau Cymru drwy hyn yn penderfynu mai uchafswm y ffurfiau ar bob un o'r cymwysterau cyfyngedig newydd y gellir eu cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru o dan Ran 4 o'r Ddeddf ar unrhyw un adeg yw **un**.

Mae'r cymwysterau cyfyngedig newydd fel a ganlyn:

1. Lefel 1/2 TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
2. Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Craidd)
3. Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Craidd)
4. Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
5. Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
6. Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
7. Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
8. Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

9. Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
10. Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
11. Lefel 3 TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol Iechyd a Gofal Cymdeithasol
12. Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
13. Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
14. Lefel 4 Paratoi ar gyfer arwain a rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
15. Lefel 4 Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Arbenigedd
16. Lefel 4 Paratoi ar gyfer arwain a rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
17. Lefel 4 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gydag Arbenigedd
18. Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer
19. Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

Bydd cymwysterau 1-10 yn cael eu cyfyngu am gyfnod o bum mlynedd o fis Medi 2019.

Bydd cymwysterau 11-19 yn cael eu cyfyngu am gyfnod o bum mlynedd o fis Medi 2020.

Ebrill 2019